**Cofnodion o gyfarfoid Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd Nos Fawrth 16 o Fai 2023 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Rhys Parry, Gwynedd Williams, Ann Lawton, Philip Roberts, Berwyn Parry Jones, Hefin Jones, Beca Brown.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Richard Robinson

**Clerc:** Meirion Jones

**1148. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

**1149 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodir uchod

**1150. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**1151. I gadarnhau cofnodion cyfarfod 18 Ebrill 2023**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 18 Ebrill 2023 ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1152. Unrhyw fater yn codi o gofnodion cyfarfod 18 Ebrill 2023**

Adroddwyd fod y goeden yn Parc Moelyn yn iawn ond fod graffiti wedi ysgrifennu ar y fainc

**1153. I gadarnhau cofnodion cyfarfod 3 o Fai 2023**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1154. Unrhyw fater yn codi o gofnodion 3 o Fai 2023**

Dim ond fod gwrthwynebiad y cyngor i'r cais cynllunio wedi ei gyflwyno at Gyngor Gwynedd

**1155. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent ac i drefnu dyddiad cyfarfod o'r pwyllgor.**

Adroddodd y Cynghorydd Philip Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent fod blaenoriaethau'r pwyllgor ar gyfer 2023 / 2024 wedi eu penderfynu ac fod y rheolau newydd yn eu lle. Mae'r pwyllgor hefyd yn gweithio ar ddatblygu polisi rheoli cofebion.

Adroddwyd fod cysylltiad wedi ei wneud a swyddog o’r Eglwys yng Nghymru parthed y wal sydd yn bochio ar y ffordd i’r fynwent a gobeithir trefnu cyfarfod gyda’r swyddog pan fydd yn yr ardal nesaf. Adroddwyd hefyd fod y swyddog am drefnu adroddiad peiriannydd am gyflwr y wal. Fe obeithir gallu cynnal y cyfarfod fis Mehefin.

Cytunwyd ar gyfarfod nesaf o Bwyllgor y Fynwent i gyfarfod ar 12fed o Fehefin 2023 am 6:00yh yn y Fynwent.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1156. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ac i drefnu dyddiad cyfarfod o’r pwyllgor**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ers penderfynu ar y gyllideb ar gyfer 2023 / 2024 ond fod angen trefnu cyfarfod yn weddol fuan.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am y wybodaeth a penderfynwyd cynnal cyfarfod o’r pwyllgor ar 23 o Fai 2023 am 18:30 drwy Zoom.

**1157. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Hamdden a Mwynderau drefnu dyddiad cyfarfod o’r pwyllgor.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod yn ddiweddar ond fod angen trefnu cyfarfod yn weddol fuan.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am y wybodaeth a penderfynwyd cynnal cyfarfod o’r pwyllgor ar 30 o Fai 2023 am 18:30 drwy Zoom

**1158. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Bwyd a Llesiant ac i drefnu cyfarfod o’r pwyllgor.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Bwyd a Llesiant ei fod, gyda’r Cynghorydd Beca Brown a’r clerc, wedi cyfarfod a swyddog o Fareshare a mynegwyd sawl pryder am y bwyd a ddarperir, megis poteli diod, dim bwyd oer

**1159. I drefnu cyfarfod o’r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.**

Adroddwyd nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ond fod angen galw cyfarfod oherwydd digwyddiad ar sleid ar gau chwarae yn Cwm y Glo.

**Penderfynwyd:** Y Cynghorwyr Avril Jones a Gwynedd Williams i fynd i’r cae i archwilio’r broblem

**1160. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

**Gwêl eitem 1161 –** Ar gyfer y dyfodol bydd yr adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir yn cael eu cyfuno oherwydd fod adroddiadau'r ddau yn mynd i fod mwy neu lai yr un peth o Gyngor Gwynedd ac byddant yn newid bob yn ail i ddarparu'r adroddiad misol

**1161. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

Ymgynghoriad Ardal Ni Bro Peris:

Bum i yn yr ail gyfarfod ardal a oedd yn edrych ar ddrafft o'r ddogfen weithredol sydd yn seiliedig ar yr holl sylwadau a ddaeth i mewn yn y nosweithiau ymgysylltu, gan drigolion lleol a rhanddeiliaid. Roedd hi'n braf gweld llawer o gynrychiolwyr grwpiau cymunedol amrywiol yn bresennol gan gynnwys cynghorwyr sir a chymuned yr ardal. Bum yn edrych drwy'r prosiectau sydd ar y gweill ac yn ddymunol gan y cymunedau ac yn cael trosolwg o'r grantiau a ffynonellau ariannol posib ar gyfer rhai o'r cynlluniau.

Grwp Economi Gylchol Bro Peris:

Bum mewn cyfarfod i drafod beth fyddai dymuniadau pobol leol ar gyfer cynyddu ailgylchu, ail-ddefnyddio a benthyg nwyddau yn hytrach na'u prynu yn newydd. Mae gwaith eisoes yn digwydd yn lleol gyda chynlluniau fel sesiynau ffeirio gwisgoedd ysgol, ac mae caffi trwsio yn digwydd yn Llanrug ar Fehefin 17eg. Mae bwriad i wahodd Catrin Wager o sefydliad Benthyg i ddod atom i drafod syniadau ac fe soniwyd am fws benthyg yn sir Ddinbych a tybed a oes modd cael rhywbeth tebyg yn yr ardal hon. Rydw i wedi cynnal sesiwn ffeirio gwisg ysgol dros y gwyliau Pasg a byddaf yn cynnal un arall ddiwedd gwyliau'r haf. Rydw i hefyd yn dosbarthu gwisgoedd ysgol fel y mae'r angen yn codi, a phobol yn cysylltu yn holi am ddillad wrth i'w plant dyfu.

Ysgol Gynradd:

Bum mewn Noson Ymyraethau yn ysgol gynradd a chael fy mhlesio yn arw iawn efo'r gwaith ardderchog sydd yn mynd ymlaen yno i gefnogi plant yn addysgol ac yn emosiynol. Roedd bwrdd arddangos i bob ymyrraeth ac aelodau o staff yno i esbonio wrth rieni sut oedd pob ymyrraeth yn cefnogi datblygiad eu plant. Mae hyn yn ychwanegol wrth gwrs at waith pwysig Madi y Ci Lles.

Foelas:

Mae pryderon wedi eu mynegi ers misoedd lawer am beth fydd dyfodol cyn-gartref preswyl Foelas yn Ffordd yr Orsaf, Llanrug - ac fe wireddwyd y pryderon rheiny pan ddaeth llythyr i rai o drigolion Rhos Rug yn eu hysbysu bod cais cynllunio wedi ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd er mwyn troi y cartref yn eiddo amlfeddiannol (HMO).
Cefais lawer i gnoc ar fy nrws; ebost a galwad ffôn yn mynegi tristwch a phryder am y cais, a phawb yn poeni yn arw iawn am effaith datblygiad o'r fath ar ein cymuned yma yn Llanrug.

Yn ogystal â bod yn gynghorydd sir rydw i hefyd yn gynghorydd cymuned ac fe aethom ati ar unwaith fel Cyngor Cymuned i drefnu cyfarfod arbennig er mwyn trafod y cais cynllunio yma. Mae hawl i'r cyhoedd fod yn bresennol yn ein cyfarfodydd felly roedd yn gyfle da inni gael trafodaeth fel cymuned am y mater cynhennus yma.

Roeddem yn awyddus i'w gwneud hi mor hawdd â phosib i bawb fedru ymuno felly mi wnaethom fentro cynnal y cyfarfod yn 'hybrid', gyda chroeso i bobol fynychu'r cyfarfod drwy ym bresenoli yn y Sefydliad Coffa, neu drwy ymuno yn rhithiol dros Zoom.

Daeth tua 70 i'r Sefydliad gydag oddeutu 40 yn ymuno ar lein - a dyna brawf o gryfder y teimlad sydd yma yn y pentref.

Ymunodd ddau o berchnogion Foelas dros Zoom er mwyn ceisio ateb cwestiynau'r gymuned, ac mae'n deg dweud eu bod wedi derbyn sawl her i gynnwys eu cais, ac i'w sylwadau ar y noson.

Rhai o'r pryderon a godwyd gan y gymuned ydi'r diffyg gofod parcio ar Ffordd yr Orsaf ac y byddai adeilad 17 ystafell - rhai ohonynt yn rai dwbl - yn ychwanegu'n sylweddol at yr heriau sydd yma eisoes. Mae'r traffig yn drwm ar y lôn yn barod a'r bysiau yn cael trafferth dod fyny. Mynegwyd nad oes galw am eiddo HMO yn Llanrug ac y byddai'r datblygiad yn anghydnaws â chymeriad y pentref. Mynegwyd hefyd bryderon am yr effaith ar Cymreictod yr ardal gan mai Llanrug yw pentref Cymreiciaf Cymru. Roedd emosiynau yn danbaid yn y cyfarfod a theimlad cryf iawn yn erbyn y cais a phopeth y byddai'n ei olygu i'r ardal hon.
Gan mai cyfarfod o'r Cyngor Cymuned oedd hwn - gyda'r cyhoedd yn bresennol - bu pleidlais ar ddiwedd y cyfarfod i gefnogi neu wrthwynebu'r cais, ac fe bleidleisiodd y cyngor yn unfrydol yn erbyn.

Mae gwrthwynebiad y Cyngor Cymuned bellach wedi ei nodi ar y cais ac mae gwrthwynebiad wedi dod hefyd gan adran draffig y cyngor.

Rydw i fel yr aelod lleol wedi ysgrifennu at yr adran gynllunio i wrthwynebu a phan ddaw'r cais gerbron y pwyllgor cynllunio yn yr wythnosau nesaf byddaf yn mynychu er mwyn siarad yn ei erbyn.

Hoffwn ddiolch i'r rhai fynychodd y cyfarfod ac i'r rhai sydd wedi bod yn cysylltu â mi gyda'u sylwadau, a hoffwn ddiolch hefyd i glerc a chadeirydd y Cyngor Cymuned ac i'r Sefydliad Coffa am eu gwaith rhagbaratoi technegol a olygodd bod nifer fawr o drigolion lleol wedi gallu cael eu cynnwys yn y trafodaethau.

**Cyngor:**

Llongyfarchiadau gwresog i'r Cynghorydd Beca Roberts ar gael ei hethol yn is-gadeirydd Cyngor Gwynedd.

Bu'r Cabinet yn ymweld a safle Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd ac rwy'n siŵr y bydd pobol Llanrug yn tyrru yno fel arfer, gyda diolch i'r holl drigolion

sydd wedi rhoi mor hael er mwyn sicrhau bod Pwyllgor Apel Llanrug a Chwm-y-glo wedi cyrraedd ei darged a mwy.

Bum mewn hyfforddiant Helpu Pobol Drwy'r Argyfwng Costau Byw a dysgu sut i helpu pobol wirio eu bod yn hawlio pob budd-dal maent yn gymwys i'w gael. Mae nifer fawr o bobol yn colli allan ar arian y mae hawl ganddynt i'w gael.

Mae gwaith ar y gweill i sefydlu Cyngor neu Fforwm Ieuenctid, er mwyn codi ymwybyddiaeth pobol ifanc o beth mae llywodraeth leol yn ei wneud a beth yw cyfrifoldeb cyngor sir. Mae'r Senedd Ieuenctid wedi bod yn llwyddiannus iawn a'r gobaith yw y byddai fersiwn llywodraeth leol yr un mor boblogaidd

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1162. I dderbyn a cymeradwyo adroddiad yr archwiliwr mewnol**

Adroddwyd fod yr archwiliwr mewnol wedi cwblhau ei waith ar gyfer 2022 / 2023 ac fod adroddiad yr archwiliwr wedi darparu adroddiad mewnol (eisoes wedi gylchredeg). Nodwyd fod popeth mewn trefn ac nad oedd yr archwiliwr wedi adnabod dim o'i le.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth a diolchwyd i'r clerc am ei waith. Fe arwyddwyd y ffurflen flynyddol gan y Cadeirydd

**1163. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C23/0048/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Adeiladu ty. Construction of dwelling.
**Ymgeisydd:** Mr and Mrs Thomas Jones
**Asiant:** Alan Owen (A.L.I Building Design Ltd)
**Cyfeiriad:** Tir Ger / Land To Rear Of 8 Rhes Rhythallt, Llanrug, LL55 4AT
**Cyfeirnod Grid:** 254293.62, 363589.88
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

Ni chymerodd y Cynghorydd Beca Brown ran yn y drafodaeth ac ni waeth bleidleisio

**Penderfynwyd:** Parhau i wrthwynebu'r cais am y rhesymau sydd eisoes wedi mynegi

Daeth y cyfarfod i bwn am 20:40

Arwyddwyd

Cadeirydd: Dyddiad: 20fed o Fehefin 2022